

# National Education Union Cymru

## Datganiad i'r Wasg

I'w rhyddhau yn syth

02920 491818 | 07815 071164

[www.neu.org.uk](http://www.neu.org.uk)

[www.Facebook.com/nationaleducationunion](https://www.facebook.com/nationaleducationunion)

[www.Twitter.com/@NEUnion](https://www.twitter.com/@NEUnion)



## Lansiad canllaw ar-lein 'Making News Toolkit for Schools' yng Nghynhadledd Flynyddol NEU Cymru

Fe fydd y National Education Union Cymru yn lansio'r adnodd ar-lein 'Making News Toolkit for Schools' i'w haelodau yn eu Cynhadledd Flynyddol yng Nghasnewydd ar y 9fed o Dachwedd.

Mae prosiect ar y cyd rhwng prosiect Cronfa Dysgu Undebau Cymru NEU Cymru, a'i hariennir gan Lywodraeth Cymru, a Chanolfan Newyddiaduraeth Gymunedol Prifysgol Caerdydd wedi creu canllaw hyfforddi'r hyfforddwr sydd yn cynnwys 10 sesiwn gyda'r nod o arfogi disgyblion cynradd gyda sgiliau sylfaenol newyddiaduraeth. Mae'n adnodd ar-lein am ddim sydd ar gael yn Saesneg ar hyn o bryd gyda'r fersiwn Gymraeg ar gael erbyn y Nadolig 2019.

Mae adroddiadau ers tro bod newyddiaduraeth mewn argyfwng, mae'r canllaw yma yn dysgu'r genhedlaeth nesaf o ddinasyddion i ddadansoddi newyddion a gwybodaeth, yn hytrach na derbyn heb gwestiynu.

Fe fydd hyn yn helpu i ymladd cynnydd 'newyddion ffug' gan fydd plant yn tyfu fyny i fod yn oedolion gyda'r sgiliau i gwestiynu a gwirio'r wybodaeth maent yn ei dderbyn.

Yn yr oes ddigidol, mae'r gwersi yn y canllaw yn darparu sgiliau bywyd hanfodol ar gyfer dinasyddion gwybodus y dyfodol. Hefyd, yn allweddol, mae'n dysgu holl blant Cymru bod eu llais yn bwysig ac yn rhoddi iddynt y sgiliau i ddweud storiâu eu hunain

"Rwy'n falch ein bod ni'n gallu defnyddio Cynhadledd Flynyddol NEU Cymru i lansio'r adnodd ar lein 'Making News Toolkit for Schools'". Meddai **David Evans**, Ysgrifennydd NEU Cymru. "Gyda'r Cwricwlwm Newydd ar y gorwel dyma'r amser delfrydol i rannu'r pecyn hwn gyda'n haelodau ac i hyrwyddo'r hyn sy'n bosib drwy gynllun Cronfa Dysgu Undebau Llywodraeth Cymru."

Mae'r prosiect yn rhan o strategaeth allweddol ehangach Prifysgol Caerdydd i weithio gyda phartneriaid addysg a holl ysgolion Cymru er mwyn cefnogi athrawon i weithio tuag at well cyrhaeddiad addysgol.

Dywedodd **Emma Meese**, Cyfarwyddwr Newyddiaduraeth Gymunedol Prifysgol Caerdydd "Mae'r prosiect yma'n agos iawn at fy nghalon. Fe redwyd cynllun pilot tair blynedd yn ôl mewn dwy ysgol Gynradd ym Merthyr Tudful ac rwy'n llawenhau, trwy weithio gyda

chynllun Dysgu Undebau yr NEU, ein bod ni'n gallu ehangu argaeledd yr adnodd hollbwysig yma i bob ysgol yng Nghymru."

Mae gan gydaudur y prosiect, **Anna Wynn Roberts**, gefndir mewn newyddiaduraeth fideo a chreu rhaglenni dogfen ar gyfer Channel 4 a'r BBC, ond mae hi hefyd wedi'i hyfforddi ac wedi gweithio fel athrawes.

"Rwy'n cofio pa mor orffwyll oedd fy amserlen ac roeddwn eisiau gwneud hwn mor hygyrch â phosib i athrawon gyda phob adran wedi'i osod fel cynllun dysgu gyda nifer o adnoddau rhyngweithiol i'w defnyddio". Meddai Anna Wynn Roberts. "Fe fyswn i wedi bod wrth fy modd gyda rhywbeth fel hyn pan oeddwn i'n dysgu."

Fe ddywedodd **Beth Roberts**, Cydlynnydd Dysgu Undebau NEU Cymru wnaeth gychwyn datblygiad y canllaw ysgrifenedig: "Mae'r cwrs ymarferol 'hyfforddi'r hyfforddwr' yma wedi dod at ei gilydd drwy gydweithio agos rhwng Emma Meese ac Anna Wynn Roberts ar brosiectau Dysgu Undebau eraill. Mae hon yn brosiect cydweithredol cyffrous rhwng C4CJ a phrosiect Dysgu Undebau NEU Cymru ac rydym yn hynod falch i'r athrawon hynny wnaeth beilota'r canllaw yn eu hysgolion."

DIWEDD

### **Cysylltiadau i'r Wasg:**

Mae'r National Education Union yn undeb sy'n bodoli ers uno yr Association of Teachers and Lecturers (ATL) a'r National Union of Teachers (NUT), ar y 1af o Fedi 2017. Gwelwch y manylion cyswllt isod ar gyfer ymholiadau.

***Cyswllt: David Evans, National Education Union, Tŷ Sinnott, 18 Neptune Court, Vanguard Way, Cardiff CF24 5PJ. Tel: 029 20491818. Mob: 07815 071164.***

***e-mail: [david.evans@neu.org.uk](mailto:david.evans@neu.org.uk)***

### **Nodyn ar gyfer golygwyr:**

Cynhelir Cynhadledd NEU Cymru yng ngwesty'r Celtic Manor, Casnewydd, 9fed a 10fed o Dachwedd 2019.

Mae croeso i aelodau'r wasg, gofynnwn I chi gysylltu gyda thîm NEU Cymru o flaen llaw.

**Cynhelir lansiad canllaw "Making News" am 1.30yp yn y Beaumaris Suite.**

**Ynglŷn â'r canllaw**

Mae'r pecyn 80+ tudalen, sydd ar gael i'w lawrlwytho, yn cynnwys 10 cynllun gwers gyda phecyn adnoddau sydd yn cynnwys sleids athrawon a thaflen gweithgaredd ar gyfer pob gwers.

Yn yr oes ddigidol gall unrhywun gyda ffôn symudol greu lluniau a fideos am ychydig neu ddim cost ychwanegol. Mae'r modiwl yma yn dysgu disgyblion sut i greu adroddiadau newyddion o ansawdd uchel, egwyddorol a theg, am faterion sy'n bwysig i'w cymuned gan ddefnyddio teclynau sydd eisoes mewn defnydd mewn ysgolion. Mae'r canllaw yn gwneud awgrymiadau ar gyfer atodiadau gellir eu prynu yn hawdd ac yn rhad ar y stryd fawr neu dros y we.

Dros gyfnod y modiwl mae disgyblion yn dysgu beth sydd yn gwneud stori yn destun sylw newyddion a'r opsiynau ar gyfer ymchwilio eu storiâu. Fe fydden nhw'n dysgu bod angen gwybodaeth gan nifer o ffynonellau dibynadwy a bod angen iddynt ystyried "pwy, beth, pam, pryd a lle" y stori.

Yn ogystal â dysgu sgiliau cyfweld fe fydden nhw'n dysgu sut i ffilmio a golygu cyfweiliadau a chreu golygfeydd o amgylch cyfweiliadau. Yna, fe fydden nhw'n defnyddio'r cynnyrch ffilm er mwyn creu darn ysgrifenedig ar gyfer print neu'r we.

Mae'r cwrs yn annog sgiliau meddwl beirniadol mewn oes pan mae pobl yn derbyn straeon, delweddau a lluniau ar y we sydd heb eu gwirio. Mae'r adran ar 'newyddion ffug', hawlfraint, caniatâd a chysyniad yn trafod ystyriaethau pwysig i bawb sydd yn derbyn newyddion, nid yn unig y rheini sy'n creu'r newyddion, yn enwedig pan fo'r 'newyddion' hynny yn cael ei rannu ar y cyfryngau cymdeithasol.

### **Ynglŷn â'r National Education Union**

- Mae'r National Education Union yn sefyll fyny dros ddyfodol addysg. Mae'n dod at ei gilydd lleisiau athrawon, darlithwyr, cymorthyddion ac arweinwyr sydd yn gweithio mewn ysgolion dan gynhaliath, annibynol a cholegau er mwyn ffurfio'r undeb addysg fwyaf yng Nghymru.
- Mae'r National Education Union yn aelod o'r Trades Union Congress (TUC), European Trade Union Committee for Education (ETUCE) ac Education International (EI). Nid yw'n gysylltiedig gydag unrhyw blaid wleidyddol ac mae'n ceisio gweithio yn adeiladol gyda'r holl brif bleidiau.

### **Ynglŷn â'r Gronfa Dysgu Undebau Cymru**

Mae Cronfa Dysgu Undebau Cymru Llywodraeth Cymru yn bodoli i gefnogi mentrau dysgu mewn gweithleoedd undebol ble mae'r cyflogwyr yn cydnabod buddion gweithio mewn partneriaeth gydag undebau er mwyn cynyddu sgiliau eu gweithleoedd. Mae'n cyllido amrediad helaeth o brosiectau sydd yn cael eu harwain gan wahanol undebau er mwyn hyrwyddo dysgu yn y gweithle.